

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Ystâd y Goron yng Nghymru Gorffennaf 2011

Diben y papur hwn yw darparu gwybodaeth am Ystâd y Goron yng Nghymru ac amlinellu'r trafodaethau sy'n digwydd ynghylch dyfodol Ystâd y Goron ar sail ehangach mewn mannau eraill yn y DU.

Tir ac eiddo sy'n perthyn i'r Frenhiniaeth yn ôl hawliau'r Goron yw Ystâd y Goron ond nid yw'n eiddo preifat y Frenhiniaeth. Caiff y term hefyd ei ddefnyddio am y corff sy'n gweinyddu'r Ystâd. Ar hyn o bryd bwrdd o wyth Comisiynydd, wedi'u penodi gan y Frenhiniaeth, sy'n arwain ac yn cyfarwyddo Ystâd y Goron.

Gwasanaeth
Ymchwil



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiuedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
www.cynulliadcymru.org/bus-assembly-publications-research.htm

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:
Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: Research.Service@wales.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Ystâd y Goron yng Nghymru
Gorffennaf 2011

Alys Thomas

Rhif dogfen: 11/046

Gwasanaeth
Ymchwil



Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	1
2.	Beth yw Ystâd y Goron?.....	2
3.	Trefn Lywodraethu Ystâd y Goron	3
4.	Ystâd y Goron a'r Rhestr Sifil	5
5.	Ystâd y Goron yng Nghymru	6
5.1.	Y Portffolio.....	6
5.2.	Cyfrifon Ystâd y Goron yng Nghymru 2009-10.....	6
6.	Ystâd y Goron yn yr Alban	7
7.	Ystâd y Goron a Datganoli yng Nghymru	11
8.	Cronfa Cymunedau Arfordirol	14
	Atodiad 1 Portffolio Ystâd y Goron yng Nghymru	15
	Ystadau amaethyddol.....	15
	Tir Comin	15
	Llys Defaid Crwydr Dinbych.....	15
	Mwynau	16
	Morol ar Arforol	16
	Porthladdoed a marinas	17
	Ynni Gwynt Alltraeth ac Adnewyddolion y Môr	17

Ystâd y Goron yng Nghymru

1. Cyflwyniad

Tir ac eiddo sy'n perthyn i'r Frenhiniaeth yn ôl hawliau'r Goron yw Ystâd y Goron ond nid yw'n eiddo preifat y Frenhiniaeth. Caiff y term hefyd ei ddefnyddio am y corff sy'n gweinyddu'r Ystâd. Ar hyn o bryd bwrdd o wyth Comisiynydd, wedi'u penodi gan y Frenhiniaeth, sy'n arwain ac yn cyfarwyddo Ystâd y Goron.

Mae gweithrediad Ystâd y Goron wedi denu gwaith craffu yn ddiweddar am nifer o resymau. Yn 2010 cynhaliodd Pwyllgor Dethol Trysorlys Tŷ'r Cyffredin ymchwiliad i reolaeth Ystâd y Goron yn y DU. Mae *Bil yr Alban*¹, sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd, yn cynnig bod un o'r Comisiynwyr yn cael ei benodi yn Gomisiynydd Ystâd yr Alban i gynrychioli buddiannau'r Alban a dylai hwn fod yn rhywun a all arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylweddol o fuddiannau'r Alban. Yn ychwanegol at hynny, mae'r Bil yn cynnwys gofyniad y dylid ymgynghori'n ffurfiol â Gweinidogion yr Alban ar benodi Comisiynydd yr Alban . Wrth graffu ar *Fil yr Alban* cafodd Pwyllgor Materion yr Alban Tŷ'r Cyffredin lawer o dystiolaeth am Ystâd y Goron a chyhoeddodd ymchwiliad i'w rheolaeth yn yr Alban ac mae'r ymchwiliad yn parhau.

Datblygiad pellach, yn dilyn buddugoliaeth Plaid Genedlaethol yr Alban yn etholiad mis Mai 2011, yw bod Llywodraeth yr Alban yn pwysu am ragor o newidiadau i *Fil yr Alban*, gan gynnwys datganoli Ystâd y Goron yn yr Alban i Weinidogion yr Alban. Byddai hyn yn golygu y byddai refeniw sy'n cael ei dalu i'r Trysorlys ar hyn o bryd, yn cael ei dalu i Gronfa Gyfunol yr Alban. Galwodd Plaid Cymru hefyd am ddatganoli Ystâd y Goron yng Nghymru yn ei Manifesto yn 2011.

Diben y papur hwn yw darparu gwybodaeth am Ystâd y Goron yng Nghymru ac amlinellu'r trafodaethau sy'n digwydd ynghylch dyfodol Ystâd y Goron ar sail ehangach mewn mannau eraill yn y DU.

¹ [Y Gwasanaeth Ymchwil, *Bil yr Alban*, Papur Ymchwil 11/001, Ionawr 2011 \(Saesneg yn unig\)](#)

2. Beth yw Ystâd y Goron?

Eiddo'r Frenhiniaeth, yn ôl hawliau'r Goron yw Ystâd y Goron. Hynny yw, mae'n ei hetifeddu wrth esgyn i'r orsedd ond nid yw'n eiddo preifat y Frenhiniaeth ac ni all ei gwerthu ac nid yw refeniw ohoni'n eiddo'r Frenhiniaeth.

Defnyddir y term "Ystâd y Goron" hefyd i ddisgrifio'r corff a sefydlwyd dros byth o dan *Ddeddf Ystâd y Goron 1961*² fel ystâd ymddiriedolaeth, sy'n annibynnol o'r llywodraeth a'r Frenhiniaeth, gyda swyddogaeth gyhoeddus i:

- fuddsoddi mewn rhai asedau eiddo sy'n perthyn i'r Frenhiniaeth, a'u rheoli; a
- **rhoi ei warged refeniw bob blwyddyn i gronfa gyfunol y DU.**

Mae Ystâd y Goron yn nodi nad oes unrhyw sefydliad arall yn y byd yn union yr un fath â hi ac "its role as employer, influencer, manager, guardian, facilitator and revenue creator is unique."³

Mae'n disgrifio'i hun fel bod â dau brif amcan:

- bod o fudd i'r trethdalwr trwy dalu'r refeniw o'i asedau'n uniongyrchol i'r Trysorlys;
- a gwella gwerth yr ystâd a'r incwm y mae'n ei greu.

Mae ganddi bortffolio eiddo gwerth dros £6.6 bn ar draws y DU ac nid yw'n destun treth gorfforaeth, treth incwm na threth ar enillion cyfalaf.⁴

Ym mis Ionawr 2011 gofynnodd Kerry McCarthy AS i'r Trysorlys:

To ask the Chancellor of the Exchequer what the income from the Crown Estate was in 2009-10; and what estimate has been made of income from the Estate in (a) 2010-11, (b) 2011-12, (c) 2012-13 and (d) 2013-14. [34196]

Justine Greening:

The Crown Estate is obliged by law to pay its net annual surplus to the Exchequer. In 2009-10 the surplus paid over was £210 million of which rents from offshore wind activity contributed £2.6 million. The Crown Estate's medium-term objective is to generate a return of some £250 million by 2014. Since the Crown Estate operates commercially, it does not publish annual forecasts of its net surpluses.⁵

² [Deddf Ystâd y Goron 1961 \(c.55\)](#) (Saesneg yn unig)

³ [Gwefan Ystâd y Goron](#)

⁴ [Adroddiad Blynyddol Ystâd y Goron 2010, Nodiadau ar Ddatganiadau Ariannol, Ebrill 2010.](#) (Saesneg yn unig)

⁵ Trafodion Tŷ'r Cyffredin, 18 Ionawr 2011, 521 c752W

3. Trefn Lywodraethu Ystâd y Goron

Y Trysorlys yw adran noddi Ystâd y Goron. Yr Ysgrifennydd Economaidd yw'r gweinidog sy'n ei noddi ac sy'n atebol dros ei fusnes yn y Senedd pan fydd angen.⁶

Bwrdd o wyth Comisiynydd sy'n arwain ac yn cyfarwyddo Ystâd y Goron. Caiff aelodau'r Bwrdd eu penodi gan y Frenhiniaeth ar argymhelliad y Prif Weinidog, o ymgeiswyr a enwyd gan banel dewis lle mae cynrychiolaeth o'r Trysorlys. Mae Swyddfa'r Alban yn darparu aelod ar gyfer y panel i benodi aelod bwrdd yr Alban. Nid oes aelodau cyfatebol ar gyfer Cymru na Gogledd Iwerddon.

Mae Ystâd y Goron yn cyflogi oddeutu 400 o staff, mewn deg lleoliad gwahanol drwy'r Deyrnas Unedig. Mae'r ddwy brif swyddfa yn Llundain a'r tu allan i dref Windsor. Nid oes yr un o'r swyddfeydd wedi'u lleoli yng Nghymru.

Yn Llundain mae oddeutu 170 o staff sy'n cael eu harwain gan uwch dîm rheoli. Mae Windsor yn cyflogi 200 o bobl, y rhan fwyaf ohonynt yn gysylltiedig â'r gwaith o gynnal a chadw a rhedeg Windsor Great Park, gan gynnwys coedwigwyr. Y prif leoliad arall yw'r Alban lle cyflogir 30 aelod o staff.

Caiff yr ystadau eu rhannu'n bedwar grŵp busnes, at ddibenion rheoli: trefol, morol, gwledig a Windsor. Caiff y rhain i gyd eu cefnogi gan dimau gweinyddu a gwasanaethu.

Caiff llawer o'r gwaith beunyddiol o reoli'r ystadau ei roi i gwmnïau o syrfewyr a benodwyd ac maent yn gweithredu fel asiantau rheoli. Caiff y rhan fwyaf o bortffolio morol Cymru ei reoli gan [Cooke and Arkwright](#) a'r ystadau gwledig gan [Knight Frank](#).

Cynhaliodd Pwyllgor Dethol Trysorlys Tŷ'r Cyffredin ymchwiliad i reolaeth Ystâd y Goron ar ddechrau 2010.⁷ Canfu'r Pwyllgor fod Comisiynydd Ystâd y Goron (CEC)

Y Comisiynydd

Syr Stuart Hampson, Cadeirydd a Prif Gomisiynydd

Roger Bright, Prif Weithredwr ac Ail Gomisiynydd

Gareth Baird, Aelod Anweithredol o'r Bwrdd a Chomisiynydd yr Alban

Chris Bartram, Aelod Anweithredol o'r Bwrdd

David Fursdon, Aelod Anweithredol o'r Bwrdd

Jenefer Greenwood, Aelod Anweithredol o'r Bwrdd

Dipesh Shah, Aelod Anweithredol o'r Bwrdd

Dr Anthony White, Aelod Anweithredol o'r Bwrdd

⁶ [Trysorlys EM ac Ystâd y Goron: Dogfen Fframwaith, Medi 2010 \(Saesneg yn unig\)](#)

⁷ [Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar y Trysorlys, *The Management of the Crown Estate*, Wythfed Adroddiad 2009-10, 22 Mawrth 2010.](#)

yn rhedeg busnes llwyddiannus ond mewn perthynas â'u hystadau trefol a morol roedd wedi "encountered circumstances where the extent of their emphasis on revenue generation appeared to prevent the CEC taking full account of potential wider public interests."

Gwnaeth y Pwyllgor argymhelliad bod Comisiynwyr Ystâd y Goron yn adolygu'u prosesau ymgynghori ac yn cysylltu mwy â chyrff cyhoeddus allweddol yn Llundain ynghylch eu cynlluniau ar gyfer portffolio Llundain yn y dyfodol.

Mewn perthynas â'r amgylchedd morol canfu'r Pwyllgor:

stakeholders are concerned by the emphasis the CEC are placing on revenue rather than long-term development and by CEC's monopoly position. We welcome the CEC's recognition of the importance of greater consultation and partnership-working to develop the new tidal and wave power industries, and recommend that they adopt this approach with the other sectors of marine development with which they are involved. We also welcome the Government's intention to review the CEC's monopoly position in the marine environment. We consider that the CEC ought to be able to adopt an approach that is more sympathetic to facilitating the development of local socio-economic benefit.

Nododd y Pwyllgor, gyda dychryn, gysylltiad diweddar Comisiynwyr Ystâd y Goron â mentrau ar y cyd, a gwnaeth argymhelliad bod y Trysorlys yn adolygu a yw cysylltiad o'r fath yn gydnaws â'r cyfyngiadau ar fenthyg sydd wedi'u cynnwys yn *Neddf Ystâd y Goron 1961*.

Dywedodd y Pwyllgor mai ei ganfyddiad pwysicaf oedd:

even within the current statutory framework, the CEC have more flexibility to accommodate wider public interests than either they or the Government appear to realise. We consider that, subject to the review recommended below, these wider public benefits should be clarified. We also consider that the Government is taking too narrow a view of the scope it has to advise the CEC on the extent to which it ought to take wider public interests into account.

Nid oedd gan y Pwyllgor farn bendant ynghylch a yw'r fframwaith presennol ar gyfer rholi Ystâd y Goron yn parhau i fod yn briodol, a gwnaeth argymhelliad bod y Llywodraeth yn comisiynu adolygiad ehangach o reolaeth Ystâd y Goron a Deddf 1961, a'r lefel briodol o gysylltiad Gweinidogol.

4. Ystâd y Goron a'r Rhestr Sifil

Mae hanes Ystâd y Goron yn ymestyn yn ôl sawl canrif i Goncwest y Normaniaid. Yn 1760, daeth Sior III i gytundeb â'r Llywodraeth ynghylch yr ystâd. Byddai Tiroedd y Goron yn cael eu rholi ar ran y Llywodraeth a byddai'r refeniw gwarged yn mynd i'r Trysorlys. Yn gyfnewid am hynny, byddai'r Brenin yn cael taliad blynyddol penodol, sef yr hyn a elwir bellach yn Rhestr Sifil.

Fodd bynnag, cyhoeddwyd newid i'r trefniant ariannu hwn ar ddechrau 2011 gan y Gwir Anrhydeddus George Osborne AS, Canghellor y Trysorlys, yn yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant . Dywedodd wrth Dŷ'r Cyffredin:

Her Majesty graciously agreed to a one year cash freeze in the Civil List for next year.

Going forward, she has also agreed that total Royal Household spending will fall by 14% in 2012-13 while grants to the Household will be frozen in cash terms.

In order to support the costs of the historic Diamond Jubilee, which the whole country is looking forward to celebrating, there will be a temporary additional facility of £1 million.

After that the Royal Household will receive a new sovereign support grant linked to a portion of the revenue of the Crown Estate, so that my successors do not have to return to the issue so often. [Pwyslais GY]⁸

⁸ [Trysorlys EM, *Comprehensive Spending Review Statement*, Y Gwir Anrhydeddus George Osborne AS, Canghellor y Trysorlys, 20 Hydref 2010.](#)

5. Ystâd y Goron yng Nghymru⁹

5.1. Y Portffolio

Yng Nghymru, mae Ystâd y Goron yn cynnwys portffolio eiddo amrywiol, gan gynnwys ardaloedd sylweddol o dir comin, daliadau amaethyddol ac amrywiaeth o fuddiannau mwynol. Mae hefyd yn cynnwys 65 y cant o'r blaendraeth a gwely'r môr hyd at 12 milltir allan i'r môr.¹⁰

Gellir gweld rhestr lawn o asedau Ystâd y Goron yng Nghymru yn **Atodiad 1**.

5.2. Cyfrifon Ystâd y Goron yng Nghymru 2010-11¹¹

Mae'r tabl isod yn dangos cyfrifon Ystâd y Goron yng Nghymru ar gyfer 2010-11.

Tabl 1: Ystâd y Goron 12 mis hyd at 31 Mawrth 2011

	2010-11 £m	2009-10 £1m	2010-11 £1m	2009- 10 £1m	% Cynnydd/go styngiad o'r flwyddyn flaenorol	% o'r cyfansw m
Refeniw	2.8	2.6	306.8	299.7	7.7	0.9
Gwarged Gros	2.5	2.3	264.3	246.8	8.7	0.9
Gwerth Eiddo	31.3	28.8	6703.3	5988.7	8.7	0.5
Buddsoddiad au Cyfalaf	0.4	0.2	571	394.4	-	-
Derbyniadau Cyfalaf	0.1	1.8	406.1	419	-	-

Ffynhonnell: Ystâd y Goron Cymru, Meithrin partneriaethau cryf: Uchafbwyntiau Cymru 2011.

Refeniw fesul gweithgaredd Blwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2011 £miliwn	Gwerth eiddo fesul gweithgaredd Blwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2011 £miliwn
Amaethyddiaeth - 0.1	Amaethyddiaeth - 4.0
Mwynau - 0.4	Mwynau - 3.1
Morol/blaendraeth - 2.3 Ynni	Morol/blaendraeth - 23.9
Adnewyddolion - 0.4	Adnewyddolion - 4.5

Ffynhonnell: Ystâd y Goron Cymru, Meithrin partneriaethau cryf: Uchafbwyntiau Cymru 2011.

⁹ [Ystâd y Goron, The Crown Estate in Wales, 2007.](#)

¹⁰ [Ystâd y Goron yng Nghymru, Meithrin partneriaethau cryf: Uchafbwyntiau Cymru 2011, 28 Gorffennaf 2011](#)

¹¹ Ibid.

6. Ystâd y Goron yn yr Alban

Mewn perthynas ag Ystâd y Goron yn yr Alban, eglurodd Adroddiad Pwyllgor Dethol Trysorlys Tŷ'r Cyffredin ei statws yno:

The Crown property, rights and interests in Scotland that are managed by the CEC [Crown Estate Commissioners] are legally different from those forming part of the Crown Estate in the rest of the UK. This is because Crown property rights in Scotland are defined and governed by Scots law, including Scotland's Crown rights in Scotland's territorial seabed and continental shelf area. The distinct character of the Crown rights in Scotland is also reflected in Crown rights that have no equivalents elsewhere-as shown in the CEC's schedule in the Appendix. The position is recognised by the inclusion of provisions relating to the Secretary of State for Scotland in the Crown Estate Act 1961 and the designation of one of the CEC Board members as 'Scottish Commissioner.'

Devolution is another important part of the different context in Scotland. As a result of the Scotland Act 1998, the Scottish Parliament can legislate over the extent and nature of Crown property rights in Scotland, legislate to regulate the use of land and property rights and issue guidance on standards of good management. However, the Act reserved the CEC's administration of Scotland's Crown property rights that make up the Crown Estate in Scotland, and their revenue to Westminster. The Secretary of State for Scotland therefore remains the Minister responsible for the CEC's operations in Scotland.¹²

Mewn perthynas ag amgylchedd morol yr Alban, profodd Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin rwystredigaeth arbennig yn yr Alban, lle mae llawer o'r datblygiad morol yn digwydd gyda diffyg cysylltiad Comisiynwyr Ystâd y Goron. Gwnaeth argymhelliad bod Llywodraeth yr Alban a Chomisiynwyr Ystâd y Goron yn cytuno ar goncordat neu femorandwm dealltwriaeth er mwyn atgyfnerthu'u perthynas waith, a bod Comisiynwyr Ystâd y Goron yn cryfhau eu trefniadau rheoli o fewn yr Alban yn fawr.

Mae Cymal 18 o *Fil yr Alban*, sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd, yn ei gwneud yn ofynnol bod un o Gomisiynwyr Ystâd y Goron yn cael ei benodi, ar argymhelliad Canghellor y Trysorlys, yn Gomisiynydd Ystâd yr Alban. Mae isadran (2) o'r cymal hwn yn diwygio paragraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1961 i'w gwneud yn ofynnol bod un o Gomisiynwyr Ystâd y Goron yn cael ei benodi yn Gomisiynydd yr Alban i gynrychioli buddiannau'r Alban a dylai hwn fod yn rhywun a all arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylweddol o fuddiannau'r Alban. Yn ychwanegol at hynny, mae'r Bil yn cynnwys gofyniad y dylid ymgynghori'n ffurfiol â Gweinidogion yr Alban ar benodi Comisiynydd yr Alban. Caiff Comisiynwyr eu penodi gan y Frenhiniaeth. Mae Atodlen 1 wedi'i diwygio i'w gwneud yn ofynnol bod Canghellor y Trysorlys yn gwneud unrhyw argymhelliad i'r Frenhiniaeth

¹² [Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar y Trysorlys, *The Management of the Crown Estate*, Wythfed Adroddiad 2009-10, 22 Mawrth 2010.](#)

ynghylch pwy i'w benodi yn Gomisiynydd yr Alban, ac i ymgynghori â Gweinidogion yr Alban cyn gwneud yr argymhelliad hwnnw.

Yn ystod cyfnod pwyllgor taith *Bil yr Alban* drwy'r Senedd gwnaeth Aelodau Seneddol yr SNP ddiwygiadau er mwyn datganoli Ystâd y Goron yn yr Alban i Weinidogion yr Alban. Nododd Angus McNeil AS:

What accountability do Crown Estate commissioners have to Scotland? The head office of the commissioners is here in London, the revenues for the Crown Estate are paid here in London, and the commissioners are not obligated to report to the Scots Parliament, which is the most democratic forum representing Scotland-instead, they sparingly report to this Parliament. The Crown Estate commissioners in Scotland operate under Scots law, because areas over which they take so much control, such as the foreshore and sea bed, are governed by Scots law. My argument is that the administration of the Crown Estate in Scotland should be constituted and controlled within Scots law and the Scottish Parliament.¹³

Aeth ymlaen i ddweud:

We have a serious problem when one of the largest land managers in Scotland is not accountable to the people of Scotland. The Crown Estate commissioners have a major impact on salmon farming, shellfish farming and aquaculture, they derive income from harbours and moorings and they own the entire foreshore around Scotland, yet they have absolutely no legislative duty to speak to the Scottish Parliament. A group with that much power should be accountable to the local communities of Scotland, not the Chancellor of the Exchequer at No. 11 Downing street, which is many miles away.

Our new clause calls on the Crown Estate commissioners to do what they should be doing anyway. We are seeking that the Crown Estate revenues be devolved to Scotland and that the management of the estate come under the power of the Scots Government. We want the Crown estate to become another Scottish success story, like the NHS and the police, and we want to amend the 1961 Act with new clause 10. We hope to remove the restrictions in the Scotland Act 1998 that prevent the Scottish Government-and by extension the nation, the businesses and the communities, including the islands and coastal communities, of Scotland-from running and directly benefiting from the organisation. It is at best odd that this particular function of the Crown was not devolved immediately, given that Scotland has more than 60% of the UK's coastline. The Government's plan for a Crown Estate commissioner do not go far enough, because this person will be accountable to the Treasury, not Scotland-more like a colonial administrator perhaps. The Crown Estate commissioners should operate as a body under Scots law, which is best accomplished by devolving their powers to the Scots Parliament and further to local authorities.¹⁴

¹³ [Trafodion Tŷ'r Cyffredin, 15 Mawrth 2011 col 233](#)

¹⁴ [Trafodion Tŷ'r Cyffredin, 15 Mawrth 2011 Col 236](#)

Fodd bynnag, gwnaeth Alan Reid, Aelod Seneddol y Democratiaid Rhyddfrydol dros Argyll a Bute, a oedd wedi noddi bil aelod preifat ar ddiwygio Ystâd y Goron yn 2006, y sylw canlynol:

On the income from the Crown Estate, as the hon. Member for Na h-Eileanan ân Iar [Angus McNeil] has said, only 6% of its UK-wide income is generated in Scotland, which would mean Scotland being given only 6% of the Crown Estate's income. That does not seem to be a particularly good deal in comparison with Scotland's current share of UK public spending. The important point is that the income, instead of just disappearing into the coffers of the Scottish Government instead of going into the coffers of the Treasury, should actually go to local communities.¹⁵

Hefyd ffurfiodd Senedd yr Alban bwyllgor i graffu ar *Fil yr Alban* a chafodd dystiolaeth am Ystâd y Goron, gan gynnwys sesiwn dystiolaeth gyda Roger Bright, Prif Weithredwr Comisiynwyr Ystâd y Goron. Daeth i'r casgliad:

whilst we have a great deal of sympathy for some of the more radical options being proposed for the Crown Estate Commissioners, we accept that this will require more detailed consideration between the UK Government and the devolved administrations. Given this will take time, we are favourably disposed towards consideration of some of the interim proposals for the Bill, notwithstanding the wider considerations that will continue after this Bill is enacted and we urge an early and full dialogue between the UK Government and the devolved administrations on this issue with all options on the table for the future governance of the Crown Estate Commissioners' functions in Scotland.

a:

the relationship of the Commissioners with the Scottish Parliament and the Scottish Government.... needs to be improved and made more formal, recognising the importance of the devolved matters affected by the Crown Estate Commissioners' work, notably in relation to renewables policy. We suggest that the Crown Estate Commissioners might re-instate their Scottish Operating Division; that consideration be given to the creation of the Scottish Committee with relevant stakeholders to be chaired by the Commissioner for Scotland; that the Commissioners should present a report of their work in Scotland to the Scottish Parliament; and that the Scottish Ministers should have a statutory right to be consulted on the exercise of the Secretary of State's powers of direction.¹⁶

Yn dilyn ei buddugoliaeth bwysleisiol yn Etholiad Senedd yr Alban, mae Llywodraeth yr SNP yn ceisio trafod newidiadau gyda Llywodraeth y DU ynghylch cynnwys *Bil yr Alban*. Hoffai'n arbennig gael rheolaeth ar Ystâd y Goron¹⁷

¹⁵ [Trafodion Tŷ'r Cyffredin, 15 Mawrth 2011 Col 236](#)

¹⁶ [Senedd yr Alban, Pwyllgor Bil yr Alban, 1st Report, 2011 \(Session 3\) Report on the Scotland Bill and relevant legislative consent memoranda, SCO/S3/11/R1, Mawrth 2011](#)

¹⁷ [BBC News \(gwefan\), Salmond reports "progress" over Moore meeting, 12 Mai 2011](#)

Cyhoeddodd Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Faterion yr Alban y byddai'n cynnal ymchwiliad i Ystâd y Goron ar 16 Chwefror 2011. Mae'n cynnal cyfarfodydd preifat fel rhagarweiniad i gyhoeddiad gan y Pwyllgor ynghylch cylch gorchwyl a galwad am dystiolaeth ysgrifenedig ar gyfer ei ymchwiliad i Ystâd y Goron yn yr Alban. Mae wedi gofyn am gyflwyniadau ar y canlynol erbyn 10 Mehefin 2010¹⁸:

- rheolaeth a threfn lywodraethu Ystâd y Goron yn yr Alban;
- rôl a gorchymyn Comisiynwyr Ystâd y Goron; a'r,
- berthynas rhwng Comisiynwyr Ystâd y Goron a llywodraeth ddatganoledig a llywodraeth leol y DU.

Yn arbennig, mae'r pwyllgor wedi gofyn am ymatebion i'r cwestiynau canlynol mewn perthynas â Chomisiynwyr Ystâd y Goron:

- a oes diben defnyddiol i Gomisiynwyr Ystâd y Goron yn yr Alban?
- beth yw/beth ddylai rôl Comisiynwyr Ystâd y Goron fod o ran ymchwilio yn yr Alban?
- beth mae Comisiynwyr Ystâd y Goron wedi'i etifeddu yn yr Alban?
- a yw trefniadau rheoli, gweinyddu ac atebolrwydd presennol Comisiynwyr Ystâd y Goron yn briodol?
- sut y gallai Comisiynwyr Ystâd y Goron weithredu orau er lles y cyhoedd yn yr Alban?

¹⁸ [Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Faterion yr Alban, Committee launches new inquiry into the Crown Estate in Scotland, Datganiad i'r Wasg, 12 Mai 2011.](#)

7. Ystâd y Goron a Datganoli yng Nghymru

Mae gweithgareddau Ystâd y Goron yn effeithio ar feysydd polisi sydd wedi'u datganoli i Gymru, gan gynnwys: materion gwledig, cynllunio daearol a morol, rheolaeth a strategaeth forol; datblygu economaidd; pysgodfeydd a datblygu ynni adnewyddadwy.

Pan roddodd Roger Bright, Prif Weithredwr Comisiynwyr Ystâd y Goron, dystiolaeth i Bwyllgor Bil yr Alban yn Senedd yr Alban gofynnwyd iddo am drefniadau atebolrwydd gyda'r gweinyddiaethau datganoledig. Nododd:

As you quite rightly say, Mr Peacock, our accountability is formally to the UK Treasury. However, we have nevertheless developed informal accountability arrangements with the Scottish Government, the Welsh Assembly Government and, to some extent, the Northern Ireland Government as well. That involves close working at operational level between my staff-based here in Edinburgh and in London-and Scottish Government officials and Marine Scotland officials. We are also developing contacts with the Welsh Assembly Government and its administrators. Furthermore, we also, of course, have a very good relationship with the Scotland Office.¹⁹

Gofynnodd aelod o'r Pwyllgor, sef Peter Peacock Aelod o Senedd yr Alban:

By what mechanisms are the devolved Administrations currently able to participate in investment decisions in relation to developments in renewables? Do you act as a kind of development agency enabler, in a way in which you have not acted in relation to your more traditional functions?

Atebodd Mr Bright:

In relation to offshore renewable energy, we very much see ourselves as an enabler and facilitator. Clearly, the UK Government and the devolved Governments have a keen interest in the development of offshore renewable energy. That interest coincides with our business interests; there is clear alignment between our interests and the interests of the Scottish Government and the other Administrations.²⁰

Ym mis Mawrth 2011 cyhoeddodd Jane Davidson AC, y Gweinidog dros Gynaliadwyedd ar y pryd, fod Llywodraeth Cymru ac Ystâd y Goron wedi datgan yn ffurfiol eu bwriad i gydweithio i helpu Cymru i gynhyrchu ynni'r môr, ac y byddent yn llofnodi llythyr o fwriad ar y cyd.

Hwn yw'r cytundeb cyntaf o'i fath rhwng Ystâd y Goron a gweinyddiaeth ddatganoledig. Bydd yn sicrhau na fydd gofynion seilwaith mewn porthladdoedd yng Nghymru yn achosi oedi yn y gwaith o ddefnyddio dyfeisiau ynni adnewyddadwy'r môr. Mae hefyd yn rhagweld y bydd Ystâd y Goron yn

¹⁹ [Senedd yr Alban, Pwyllgor Bil yr Alban, Cofnod Swyddogol, 3 Chwefror 2011](#)

²⁰ Ibid.

defnyddio'i gwybodaeth a'i harbenigedd i helpu porthladdoedd Cymru i wireddu'u potensial. Dywedodd y Gweinidog:

"Mae porthladdoedd yn rhan hanfodol o gadwyn cyflenwi ynni adnewyddadwy'r môr. Bydd y cytundeb hwn ag Ystadau'r Goron yn ein helpu ni i wthio ein polisiau ar ynni'r môr yn eu blaen yn gyflymach a gweddnwid ein potensial morol yn ynni y gellir ei ddefnyddio a'i adnewyddu ac yn swyddi gwyrdd newydd i Gymru."²¹

Nododd Mr Bright:

I'm keen that The Crown Estate, working with the Welsh Assembly Government, helps to create the maximum number of jobs from the offshore wind supply chain throughout the UK. Our five offshore wind energy programmes aim to deliver over a third of the UK energy needs by 2020 and will create a significant supply chain industry. Through our strategic role and strong working relationships with the relevant stakeholders we will work with Government to realise offshore renewable energy potential and the associated economic opportunities.²²

Ym mis Ionawr 2011 darlledodd Radio Wales raglen, *Eye on Wales*, am Ystâd y Goron. Yn y rhaglen dyfynnwyd Elfyn Llwyd AS yn dweud bod Ystâd y Goron yn "entirely anachronistic" a'i fod yn dymuno gweld Llywodraeth Cymru'n cael mwy o lais o ran y ffordd y mae asedau Cymru'n cael eu datblygu. Mae crynodeb y rhaglen hefyd yn nodi:

With the Crown Estate receiving a payment for every off-shore wind turbine on its land, one Welsh Labour MP has concerns about its role in implementing the Government's renewable energy policy.

While accepting that the Crown Estate does take heed of Government priorities, Huw Irranca Davies points out that its main priority is to maximise the return for the tax payer.

His concern is that if the Crown Estate decides it can earn more income from other activities - such as oil or gas - they may take precedence.²³

Dylid nodi, fodd bynnag, fod gan yr ystad forol yn Ystâd y Goron hawliau sofran i archwilio a defnyddio'r adnoddau naturiol ar ysgafell gyfandirol y Deyrnas Unedig, **ac eithrio yn achos olew, glo a nwy.**²⁴

Yn ei maniffesto ar gyfer etholiad 2011 roedd Plaid Cymru'n dadlau dros ddatganoli Ystâd y Goron i Gymru:

Mae Stad y Goron yn dirfeddiannwr sylweddol yng nghefn gwlad Cymru. Hwyl hefyd sy'n berchen gwely'r môr hyd at 12 milltir allan i'r môr ac y maent yn berchen ar 65% o'r

²¹ [Ystâd y Goron, The Crown Estate and Welsh Assembly Government signal support for marine renewable manufacturing, Datganiad i'r Wasg, 25 Mawrth 2011](#)

²² [Ystâd y Goron, The Crown Estate and Welsh Assembly Government signal support for marine renewable manufacturing, Datganiad i'r Wasg, 25 Mawrth 2011](#)

²³ [BBC Radio Wales, Eye on Wales, "The Crown Estate", Darlledwyd ar 31 Ionawr 2011](#)

²⁴ [Gwefan Ystâd y Goron, Our portfolio: Marine](#)

blaendraeth. Mae'r rhain yn asedau gwerthfawr, yn enwedig o gofio potensial Cymru i fod yn gyfoethog o ran ynni adnewyddadwy yn y môr. Cred y Blaid ei bod yn hen bryd i holl elw o Stad y Goron yng Nghymru gael ei ddefnyddio er lles pobl Cymru a byddwn yn galw am drosglwyddo perchenogaeth i Lywodraeth Cymru ar ran pobl Cymru.²⁵

²⁵ [BBC Radio Wales, *Eye on Wales*, "The Crown Estate", Darlledwyd ar 31 Ionawr 2011](#)

8. Cronfa Cymunedau Arfordirol

Ar 22 Gorffennaf 2011, cyhoeddodd Trysorlys ei Mawrhydi y byddai Cronfa Cymunedau Arfordirol newydd yn cael ei chreu. Bydd y gronfa'n cael ei hariannu gan y Llywodraeth, a fydd yn dyrannu swm o arian iddi sy'n cyfateb i 50 y cant o'r refeniw a gynhrychir gan weithgareddau morol Ystâd y Goron.²⁶ Nod y gronfa yw cefnogi datblygiad economaidd cymunedau arfordirol. Bydd yn darparu cymorth i ystod eang o brosiectau, gan gynnwys y rheiny sy'n cefnogi elusennau, yr amgylchedd, addysg ac iechyd. Gallai enghreifftiau gynnwys cefnogi ymdrechion i ddatblygu ynni adnewyddadwy, i wella sgiliau ac i ddiogelu neu wella'r amgylchedd.

Bydd y gronfa'n gysylltiedig â'r refeniw sy'n deillio o weithgareddau morol Ystâd y Goron bob blwyddyn. Er enghraifft, ym mis Ebrill 2012, bydd £23.7 miliwn ar gael yn y Gronfa Cymunedau Arfordirol. Mae'r ffigur hwn yn cyfateb i 50 y cant o'r refeniw a gynhrychwyd gan weithgareddau morol Ystâd y Goron yn 2010-11, sef £47.4 miliwn.

Bydd yr arian a fydd ar gael i bob gwlad yn y DU wedi'i gysylltu'n uniongyrchol i'r refeniw sy'n cael ei gynhyrchu gan weithgareddau morol Ystâd y Goron yn yr ardal honno. Felly, bydd Lloegr, Cymru, Gogledd Iwerddon, Ucheldiroedd ac Ynysoedd yr Alban a gweddill yr Alban yn cael eu hariannu ar wahân.

Bydd y gronfa wedi'i chysylltu'n uniongyrchol â'r refeniw a gynhrychir ym mhob gwlad. Ym mis Ebrill 2012, bydd y gronfa'n cael ei rhannu fel a ganlyn:

2010-11	Cyfanswm refeniw gweithgareddau morol Ystâd y Goron (£m)	50 y cant o refeniw gweithgareddau morol Ystâd y Goron (£m)
Lloegr	36.4	18.2
Ucheldiroedd ac Ynysoedd yr Alban	3.7	1.85
Gweddill yr Alban	4.1	2.05
Cymru	2.3	1.15
Gogledd Iwerddon	0.9	0.45
Cyfanswm	47.4	23.7

Bwriedir dosbarthu'r arian o'r gronfa ar sail ceisiadau. Ar hyn o bryd, mae'r Llywodraeth yn trafod y telerau ar gyfer dosbarthu'r arian i gymunedau gyda'r Gronfa Fawr, sy'n rhan o'r Gronfa Loteri Fawr. Yn ei ddatganiad i'r wasg, dywedodd y Trysorlys:

The Big Lottery's Big Fund has a wealth of experience and expertise in delivering funding and is well placed to distribute Coastal Communities Funding, on behalf of the Government. The Government will also liaise with the devolved administrations in Scotland, Wales and Northern Ireland.²⁷

²⁶ [Trysorlys ei Mawrhydi, Coastal communities to receive a multi-million pound boost, Datganiad i'r wasg, 22 Gorffennaf 2011](#)

²⁷ Ibid.

Atodiad 1 Portffolio Ystâd y Goron yng Nghymru

Ystadau amaethyddol

- **Aberystwyth**
Mae gan Ystâd y Goron 91 erw (37 hectar), o dir yn Aberystwyth a brynwyd yn yr 1980au er mwyn cynnig adnoddau ymchwil ar gyfer Prifysgol Cymru, Aberystwyth (asiant rheoli, Knight Frank LLP, Bryste).
- **Pumlumon**
Ym 1980 prynodd Ystâd y Goron tua 2,929 erw (1,185 hectar), o dir ar Bumlumon, a phrynodd hefyd y rhan fwyaf o'r hawliau tir comin cysylltiedig er mwyn caniatáu creu dwy ddaliadaeth amaethyddol (asiant rheoli, Knight Frank LLP, Bryste).
- **Tyndyrn**
Prynwyd 175 erw (70 hectar), o dir yn Nhyndyrn, Sir Fynwy ym 1901. Mae'r ystâd yn cynnwys buddiannau mwynol sylweddol, er mai'r brif nodwedd yw adfeilion Abaty Tyndyrn, sydd ar lannau gorllewinol Afon Gwy. Cytunodd Ystâd y Goron i roi'r Abaty yng ngofal CADW o dan gytundeb rheoli hirdymor.

Tir Comin

Mae Ystâd y Goron yn gyfrifol am ychydig o dan 66,500 erw (26,900 hectar), o dir comin ar draws Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Phowys.

Mae rheolaeth feunyddiol tir comin fel arfer yn nwylo'r cominwyr, yn gweithredu trwy ddull cymdeithasau tir comin.

Llys Defaid Crwydr Dinbych

Yn Ninbych mae Ystâd y Goron yn cynnal Llys Defaid Crwydr blynyddol. Unwaith y flwyddyn, ar ddydd Sadwrn ym mis Gorffennaf fel arfer, bydd Llys Defaid Crwydr yn ymgynull i ganiatáu i bobl sydd yn defnyddio tir comin hawlio'u defaid 'colledig'. Mae hawliadau llwyddiannus yn golygu talu 'dirwy' fechan a osodir gan y Llys, sydd wedyn yn caniatáu i'r defaid gael eu hanfon yn ôl. Gwerthir anifeiliaid nas hawliwyd neu anifeiliaid y gwrthodwyd hawliadau ohonynt mewn arwerthiant i roi terfyn ar y sefyllfa.

Mwynau

Mae gan Ystâd y Goron oddeutu 250,000 erw (100,000 hectar), o hawliau mwynau ledled Cymru ac mae'n lesio ar gyfer 11 o fusnesau mwynau. Nid yw'n rhan o'r broses ymarferol o fwyngloddio; mae ei thenantiaid yn gyfuniad o gwmnïau rhyngwladol mawr a nifer fach o weithredwyr bach lleol.

- **Chwarel Pant-y-Pwll-Dwr**
(Pentre Helygain, Sir y Fflint)
Lesir y chwarel i gwmni CEMEX sydd yn cynhyrchu 1,000,000 o dunelli o galchfaen y flwyddyn.
- **Chwarel Penmaenmawr**
(ger Conwy, Gwynedd)
Lesir y chwarel i gwmni Hanson ac mae'n cynhyrchu 500,000 o dunelli o wenithfaen y flwyddyn.
- **Chwarel Manod**
(ger Ffestiniog, Gwynedd)
- **Chwarel Livox**
(Tyndyrn)
Yn dilyn cyfnod o ddwy flynedd ar gau, ail-agorodd y chwarel yn 2007 ar les i Hanson ar gyfer calchfaen ac mae bellach yn rhedeg ar lefelau isel o gynhyrchiant.

Mwyngloddiau Brenhinol

Mae dyddodiadau o aur ac arian - 'Y Mwynfeydd Brenhinol' - yn eiddo Ystâd y Goron ble bynnag y'u ceir yn y DU, a gellir eu dal yn annibynnol o berchnogaeth yr arwyneb. Gellir cloddio am y rhain yn annibynnol neu fel mwyn cysylltiedig i ddyddodiadau eraill.

Yn y gorffennol cafwyd cynhyrchiant masnachol mewn lleoedd fel Gwynfynydd a Clogau. Heddiw, mae gweithgaredd mwyngloddio'n gyfyng iawn, er i weithgaredd panio am aur amaturiaid 'hamdden' bahrau. Lesir y Mwyngloddiau Brenhinol gan Ystâd y Goron i Fwyngloddio Môn ccc.

Morol ar Arfordol

Mae Ystâd y Goron yn gofalu am 1,287 o filltiroedd o arfordir Cymru, yn cwmpasu tua 65 y cant o flaendraeth Cymru. Rhennir hyn yn 10 ystâd arfordol, sef Mynwy, Morgannwg, Caerfyrddin, Penfro, Ceredigion, Meirionnydd, Caernarfon, Ynys Môn, Fflint a Dinbych.

Rydym hefyd yn gyfrifol am wely'r môr allan hyd at y ffin o 12 o fôrfilltiroedd.

Porthladdoed a marinas

Fel arfer, nid yw Ystâd y Goron yn rheoli porthladdoedd, marinas nac angorfeydd yn uniongyrchol, ond yn hytrach yn lesio'r tir allan ar gyfer eu datblygu a'u rheoli. Nid yw'r holl gyfleusterau hyn ar dir Ystâd y Goron ond, yng Nghymru, mae marinas Aberdaugleddau, Conwy, Pwelli a Deganwy ar ein hystâd.

Ynni Gwynt Alltraeth ac Adnewyddolion y Môr

Mae Ystâd y Goron wedi arwain y broses o gyflwyno safleoedd ar gyfer datblygu ffermydd gwynt alltraeth. Ymhlith y rhain mae North Hoyle, Traethellau'r Rhyl, Traethell Scarweather a Gwynt y Môr (13km o flaen Llandudno).